# Cofnodion cryno - Y Bwrdd Rheoli

Lleoliad:

**Ystafell Gynadledda 4B - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Iau, 23 Mawrth 2017

Amser: 11.00 - 12.30

# MB 05-17

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Bwrdd Rheoli: | Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc<br>Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad<br>Non Gwilym, Pennaeth Cyfathrebu<br>Mair Parry-Jones, Pennaeth y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi<br>Mark Neilson, Pennaeth TGCh a Dalledu<br>Kathryn Potter, Pennaeth y Gwasanaeth Ymchwil<br>Matthew Richards, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol<br>Craig Stephenson, Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau'r Comisiwn<br>Sulafa Thomas, Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth i'r Comisiwn ac i'r Aelodau<br>Dave Tosh, Cyfarwyddwr Adnoddau<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Gareth Watts, Pennaeth Dros Dro Llywodraethu ac Archwilio |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

| | |
|---|---|
| | Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br><br>Lowri Williams, Head of Human Resources |
| Staff y Bwrdd Rheoli: | Liz Jardine (Ysgrifenyddiaeth) |
| Eraill yn bresennol | |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a datganiadau o fuddiant

Cafwyd ymddiheuriadau gan Anna Daniel (Pennaeth Trawsnewid Strategol) a Nia Morgan (Pennaeth Gwasanaethau Ariannol)

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant.

## 2 Nodyn cyfathrebu i staff – Mark Neilson

Cytunodd Mark Neilson i ddrafftio nodyn am drafodaeth y Bwrdd Rheoli ar gyfer y dudalen newyddion.

## 3 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd fod cofnodion cyfarfod y Bwrdd Rheoli a gynhaliwyd ar 2 Mawrth yn gywir.

## 4 Adolygiad Cynllunio Capasiti Interim

Cyn y flwyddyn ariannol newydd ac yn y canolbwynt rhwng yr ymarferion Cynllunio Gwasanaeth a Chapasiti Blynyddol, roedd y Bwrdd Rheoli wedi neilltuo'r cyfarfod i Adolygiad Cynllunio Capasiti interim. Amcanion yr adolygiad oedd gwirio cynnydd y penderfyniadau a wnaed fis Hydref y llynedd a thrafod unrhyw ofynion newydd a hanfodol sydd wedi codi ers hynny, sy'n gofyn am benderfyniad cyn yr adolygiad blynyddol nesaf.

Roedd y Cyfarwyddiaethau wedi paratoi nodyn i'w gyflwyno yn y cyfarfod:

- y cynnydd a wnaed wrth benodi i'r swyddi hynny a gymeradwywyd yn yr ymarferion Cynllunio Gwasanaeth a Chapasiti Blynyddol nad yw penodiadau wedi'u gwneud eto, manylion am pam ac a oedd yr achos dros y swydd yn parhau'n ddilys;
- unrhyw ofynion newydd o ran adnoddau sy'n codi ers yr ymarfer gwasanaeth a capasiti blynyddol diwethaf ac sydd angen penderfyniad ar unwaith, ynghyd ag achos busnes ategol; a
- trafod unrhyw heriau disgwyliedig o ran capasiti, gan edrych ymlaen at yr ymarfer gwasanaeth a chapasiti blynyddol nesaf.

Rhoddodd Claire Clancy y cyd-destun ar gyfer y cyfarfod, i roi cefndir i'r holl benderfyniadau ar gynllunio capasiti, gan nodi ei fod wedi bod yn flwyddyn o dwf parhaus yn y sefydliad. Roedd wedi bod yn bosibl hyd yma i ddal i fyny â'r galw ond roedd yn dod yn fwy anodd, gyda gwaith newydd yn ymddangos yn gyflym.

Byddai cyllideb y flwyddyn nesaf yn dynnach nag mewn blynyddoedd blaenorol ac, yn y gorffennol mae wedi bod yn bosibl darparu'r holl bethau a gynlluniwyd. Mae costau eleni wedi'u symud yn fwriadol i'r flwyddyn ariannol nesaf er mwyn aros o fewn cyllideb 2016-17. Canlyniad hyn fyddai tynhau cyllideb y flwyddyn nesaf.

Roedd y Bwrdd Adnoddau a Buddsoddi wedi penderfynu peidio â gwneud unrhyw waith tuag at gyllideb atodol ym mis Mehefin ond ystyried yr opsiwn hwnnw eto ar gyfer mis Ionawr 2018.

I baratoi ar gyfer y Datganiad Llywodraethu ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf, roedd pwyslais mawr ar bwysau sy'n cystadlu. Felly, roedd angen gwneud dewisiadau darbodus ac effeithlon ar y gyllideb, gan sicrhau eu bod yn gadarn ac nad ydym yn talu costau nad ydynt yn hollol angenrheidiol, ac yn ystyried ffyrdd eraill o ddiwallu anghenion o ran adnoddau.

Gofynnodd Claire i'r Cyfarwyddwyr amlinellu'r canlynol yn fyr:

- cyfanswm y ceisiadau newydd am adnoddau;
- blaenoriaethu, gan gynnwys gyrwyr a thystiolaeth am pam y dylai'r swyddi newydd fod yn flaenoriaeth uchel i'r sefydliad; ac
- awgrymiadau am waith y gellid ei atal, ei newid neu ei gyflwyno'n wahanol er mwyn rhyddhau adnoddau.

*Gwasanaethau'r Comisiwn*

Amlinellodd Craig Stephenson gais Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau'r Comisiwn. Roedd rôl Cyfathrebu Mewnol yn cael ei datblygu ar hyn o bryd ond nid oedd yn rhan o'r cais eto. Roedd Cymorth Busnes i'r Aelodau yn profi uchafbwynt yn y galw ac roedd ystyriaeth yn cael ei rhoi i ffyrdd o weithio, yn enwedig ar faterion Adnoddau Dynol, i ddiwallu'r anghenion.

Bu cynnydd o 15 y cant yn y galw am gyfieithu ar y pryd a Chofnod y Trafodion. Roedd staff a oedd yn aml-fedrus yn cael eu tynnu i mewn i gefnogi'r gwaith, gan arwain at lai o gyfieithwyr testun ac roedd contractwyr yn llai cost-effeithiol ac roedd ganddynt rai problemau o ran gwydnwch. Roedd y cynnig ar gyfer hyfforddeion ychwanegol i gefnogi'r gwaith cyfieithu testun.

O ganlyniad i adolygiad Cofnod y Trafodion cafwyd rhywfaint o effeithlonrwydd, gyda rhai gweithgareddau wedi'u hatal; at hynny, nid oedd staff yn cael eu rhyddhau ar gyfer byrddau recriwtio a bu nifer llai o secondiadau. Bu cydweithio ar y gwaith digwyddiadau a strwythur arfaethedig a fyddai'n sicrhau arbedion posibl, lle byddai staff yn y dderbynfa, er enghraifft, yn cael eu defnyddio'n wahanol er mwyn galluogi mwy o adnoddau yn y tîm archebu.

*Y Gyfarwyddiaeth Busnes*

Amlinellodd Adrian Crompton y swyddi a nododd y prif flaenoriaethau:

- Dwy swydd G7 yn y tîm Cyfathrebu (Newyddion a Digidol), a fyddai ond yn arwain at gost ychwanegol gymharol fach;
- Swydd HEO yn rheoli'r prosiect Meddalwedd Deddfwriaethol a swydd yn y Gwasanaeth Trawsnewid Strategol yn cefnogi FySenedd sydd gyfwerth ag EO/TS;
- Swydd Dirprwy Gyfarwyddwr sy'n atebol i'r Cyfarwyddwr i ddarparu cymorth ar lefel uwch oherwydd faint o waith sydd ei angen ar yr agenda ddiwygio.

Sicrhawyd effeithlonrwydd drwy: gyfyngu ar fentrau arloesol newydd; drwy fod yn fwy llym wrth adolygu effeithlonrwydd a chanlyniadau; a newid patrymau gwaith i roi hyblygrwydd heb golli effeithiolrwydd.

Roedd angen gwneud gwaith pellach ar ddeddfwriaeth ategol. Mae tîm ymroddedig wedi bod yn gweithio ar ddeddfwriaeth Aelodau unigol erioed, ond roedd hefyd yn debygol y byddai deddfwriaeth dan arweiniad y Comisiwn, ynghyd â deddfwriaeth Pwyllgor, felly roedd angen edrych ar effeithlonrwydd. Roedd mentrau newydd hefyd o ran adnoddau a gafodd eu gyrru gan y nod ar gyfer rhagoriaeth seneddol, gan

ymgysylltu'n rhagweithiol â chyfathrebu a datblygu rhwydweithiau gyda sefydliadau ymchwil allanol.

*Y Gyfarwyddiaeth Adnoddau*

Amlinellodd Dave Tosh y cynigion newydd, gan gynnwys y rhai yr ystyriwyd eu bod yn hanfodol:

- Roedd angen technegydd AV i gwmpasu'r ystafelloedd pwyllgora newydd, digwyddiadau a swyddogaethau i ategu'r ddau sydd yn y tîm ar hyn o bryd;
- Rheolwr adeilad;
- adnodd uwch pwrpasol ar gyfer recriwtio;
- swydd hyfforddi a datblygu dros dro i roi amser i ystyried gofynion.

Bydd gwaith ailstrwythuro TGCh yn digwydd, a all arwain at arbedion ac effeithlonrwydd, gydag ystyriaeth ar draws y Gyfarwyddiaeth o'r defnydd o oriau hyblyg, gwyliau blynyddol a secondiadau mewnol i sicrhau arbedion effeithlonrwydd.

*Crynodeb*

Rhoddodd Claire Clancy grynodeb drwy gymeradwyo'r Bwrdd am wneud gwaith da o gyflwyno tystiolaeth ynghylch pam roedd yr adnoddau'n angenrheidiol a chafodd hynny ei graffu'n drylwyr o fewn y Cyfarwyddiaethau. Byddai'n rhaid gwneud achos cymhellol yn y cynigion cyllideb newydd i gwmpasu'r holl ofynion o ran adnoddau, gyda sail dystiolaeth glir. Byddai'n rhaid dangos yr angen i fuddsoddi mewn rolau a fyddai'n cynnal ansawdd y gwasanaethau.

Byddai angen i'r achos am yr adnoddau dynnu sylw at y lefelau o alw a phwysau, a'r penderfyniad i gael gwared ar aneffeithlonrwydd gyda chydweithredu a rheoli prosiectau'n well.

Oherwydd oedi gyda recriwtio gall fod yn bosibl bwrw ati gyda'r holl geisiadau am adnoddau, ond roedd y gwaith mor bwysig i ddyfodol Cymru y byddai'n ddoeth ystyried cyllideb atodol os bydd angen hynny ym mis Ionawr ac, os caiff ei chefnogi gan dystiolaeth gadarn, yn seiliedig ar achos, roedd yn fwy tebygol o gael cefnogaeth gan y Cynulliad.

Roedd hefyd yn bwysig ystyried gwendidau peidio â darparu adnoddau'n briodol neu heb gynllun ymlaen llaw, megis yr effaith ar gymhelliant a morâl staff.

Amlinellodd Claire y camau roedd yn eu hargymell ar gyfer symud ymlaen gyda'r gwaith capasiti, gan ei gynnwys i gyd yn y gyllideb, ond o bosibl yn raddol, dros flwyddyn, a

- Gweithio allan y costau a'r goblygiadau ar gyfer 2017-18;
- Nodi unrhyw ansicrwydd, a monitro hyd nes nad yw'n ansicr;
- Paratoi ar gyfer cyllideb atodol ymhell ymlaen llaw;
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Suzy Davies, Comisiynydd, am y cynlluniau;
- Bod yn dryloyw gyda'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'r Pwyllgor Cyllid;
- Cadw'r gweithlu'n effeithiol, o bosibl drwy ddefnyddio VES, recriwtio i swyddi rhan-amser neu swyddi tymor yn unig a chyfateb sgiliau i dasgau.

Mae'n amlwg y bydd angen ystyried y diwygio cyfansoddiadol, etholiadol, a'r gwaith o ran gadael yr Undeb Ewropeaidd sydd ar y gorwel. Mae gwaith ar y strategaeth gyllidebol ar gyfer 2018-19 wedi dechrau, ond efallai na fydd digon o wybodaeth am y rhain i gynllunio'n derfynol, felly bydd cynllunio senario yn rhoi opsiynau a sicrwydd i'r Comisiynwyr.